Bu rhai o'r plant yn cystadlu'n Eisteddfod Gylch yr Urdd ym Mhenglais a chawsant hwyl yn iawn wrth wneud hynny. Bu'r athrawon wrthi'n brysur hefyd gan mai arnynt hwy y disgynnodd y gwaith o drefnu'r ŵyl yn ogystal â threfnu Eisteddfod y Sir ar gampws y Coleg. Yn awr dymunwn yn dda i blant y cylch a fydd yn cystadlu'n yr Ŵyl Genedlaethol yn Aberafan.

Nos Fercher olaf y tymor treuliwyd noson wir ddiddorol yn yr ysgol a'r neuadd a'r ystafelloedd yn llawn o blant, rheini a chyfeillion. Noson oedd hon a drefnwyd gan y Gymdeithas Rieni Athrawon. Cafwyd cystadlu brwd yn y gwahanol gystadlaethau. Gwledd i'r llygad oedd gweld hetiau amryliw y mamau a'r plant a chawsom hwyl wrth weld y ddau gongrinero Merfyn Hughes a D. Rees Morgan yn eu hetiau bugail gwartheg. Bu'r plant wrthi'n ddiwyd gyda rhai'n addurno wyau neu datws ac eraill yn addurno basged neu'n gwneud hetiau.

Buom yn ffodus o gael gwasanaeth dau feirniad o fri sef Mrs Ray Jones a Mr Howell Harries a chawsant amser prysur drwy'r nos. Yn'ystod y cyfarfod cafodd pawb luniaeth wedi ei drefnu gan y gwragedd. Mynegwyd diolch i bawb gan Mr D. Rees Morgan. Canlyniadau:-

Dosbarth yr Ysgol Feithrin - Louise Foley a Rhys Dobson (Cydradd).
Dosbarth Mrs Williams - 1. Jonathan Guy. 2. Alison Hopper.
Dosbarth Mrs Evans - 1. Nicholas Foley. 2. Kerri Evans.
Dosbarth Miss Jones - Merched 1. Rhian Jones. 2. Joanna Foley. Bechgyn 1. David Price. 2. Philip Ralphs.
Dosbarth Uchaf - Merched 1. Meriel Ralphs. 2. Sian Wyn Davies. Bechgyn 1. Magnus Wallace. 2. Carwyn Jenkins.
Cyn-ddisgyblion - Helen Wallace a Sally Williams (cydradd).
Oedolion - Y gwragedd 1. Mrs Dorothy Clifford. 2. Mrs Elisabeth Evans. 3. Mrs Jean Jackson. Y dynion Mr Merfyn Hughes a Mr D. Rees Morgan (cydradd).